# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 22 Medi 2014** |
| Amser: | **13.30 – 16.54** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/2272f82e-3818-469a-9991-09e180641a0a?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Syr Derek Jones, Permanent Secretary, Welsh Government**<br>**Gawain Evans, Llywodraeth Cymru**<br>**Lynne Hamilton, Finance and Commercial, Welsh Government**<br>**Michael Hearty, Director General for Strategic Planning, Finance & Performance** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Richard Bettley**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

TRAWSGRIFIAD
**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflogau Uwch-reolwyr: Trafod yr adroddiad drafft

1.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ac awgrymodd nifer o newidiadau. Bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei pharatoi i'r Pwyllgor ei hystyried ar 13 Hydref.

## 2 Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013 - 2014

2.1 Trafododd yr Aelodau gynnwys y briff ymchwil cyn y sesiwn graffu a gynhelir gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ar Gyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013-14.

## 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.**
**3.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones. Roedd Jocelyn Davies yn dirprwyo ar ei ran.**
**3.3 Dywedodd Jocelyn Davies fod Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio wedi'i chynnwys yn ei phortffolio pan yr oedd hi'n Weinidog.**

## 4 Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013 - 2014

4.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Syr Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, a'i swyddogion mewn perthynas â Chyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013 - 2014.

4.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

- i anfon manylion ynghylch y pecynnau ymadael a ddyfarnwyd a'r arbedion cysylltiedig mewn costau cyflog, ac i roi dadansoddiad o'r cynnydd a welwyd yn niferoedd staff y sefydliad
- i roi eglurhad o'r ddarpariaeth ar gyfer cronfa risg Cymru
- i egluro'r gostyngiad a welwyd yn nefnydd ynni adnewyddadwy a'r cynydd a welwyd yn nefnydd ynni anadnewyddadwy ar ystâd Llywodraeth Cymru
- i ddarparu dadansoddiad o'r gwariant a wnaed ar deithio busnes swyddogol yn 2012-13 a 2013-14, o lwfansau ymrwymiad lleihau carbon, ac o wariant ar ynni yn 2013-14
- i ddarparu dadansoddiad o'r gwariant wnaed ar deithio, cynhaliaeth a lletygarwch yn 2013-14
- i roi eglurhad manwl o'r goblygiadau sydd ynghlwm â methiant Llywodraeth Cymru i sicrhau £25.6 miliwn ar ffurf darpariaeth nad yw'n arian parod. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Ysgrifennydd Barhaol, cytunodd yr Aelodau eu bod yn dymuno gweld yr adroddiad a luniwyd ar y gwersi a ddysgwyd yn dilyn y digwyddiad hwn.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013 - 2014

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd, gan gytuno i edrych eto ar y mater hwn ar ôl cael y wybodaeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd Parhaol.